Cofnodion

Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

Dyddiad:	Dydd Gwener, 26 Gorffennaf 2024
Amser:	10.00 am
Bresennol:	Cynghorwyr P Hourahine (Cadeirydd), D Jenkins, J Harris, D Mayer and M Evans
Yn bresennol:	Samantha Schanzer (Cynghorydd Craffu), Mark Bleazard (Rheolwr Gwasanaethau Digidol), Rhys Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol - Trawsnewid a'r Ganolfan Gorfforaethol), Shaun Powell (Rheolwr Trawsnewid a Gwybodaeth) and Caroline Ryan-Phillips (Pennaeth Atal a Chynhwysiant)
Ymddiheuriadau:	Cynghorwyr C Baker-Westhead, M Linton and S Cocks

1 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

2 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar **12 Gorffennaf 2024 yn gofnod gwir a chywir.**

3 **Polisi Addasiadau**

Yn bresennol:

- **Y Cynghorydd Pat Drewitt (Aelod Cabinet dros Gymunedau a Lleihau Tlodi)**
- **Caroline Ryan-Phillips (Pennaeth Atal a Chynhwysiant)**
- **Dale Sheals (Rheolwr Tîm – Addasiadau)**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau a Lleihau Tlodi yr adroddiad, a rhoddodd y Pennaeth Atal (PA) a Chynhwysiant drosolwg.

Trafodwyd y canlynol:

- Canmolodd y Pwyllgor yr adroddiad a gofynnodd sut mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cymharu ag awdurdodau lleol eraill o ran dyraniad cyllidebol. Dywedodd Rheolwr y Tîm Addasiadau (RhTA) wrth y Pwyllgor fod meincnodi wedi'i atal yn ystod y pandemig ond mae bellach wedi'i ailgyflwyno. Fe wnaethant hysbysu'r Pwyllgor eu bod yn eistedd ar Banel Addasiadau De Cymru a gofynnwyd am wybodaeth am gyllidebau awdurdodau lleol. Fe wnaethant ddweud wrth y Pwyllgor fod Cyngor Dinas Casnewydd wedi gallu cefnogi cymaint o bobl â phosibl a'u bod yn gweithio'n agos gyda Therapi Galwedigaethol i sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed yn cael eu helpu a bod y grantiau mwyaf yn cael eu defnyddio fwyaf effeithiol.

- Nododd y Pwyllgor fod bron i 31,500 o drigolion yn nodi eu bod yn anabl yng Nghasnewydd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh). Dywedodd y RhTA wrth y Pwyllgor fod data wedi'i ddarparu gan Ganolfan Wybodaeth Casnewydd ac fe'i cymerwyd o'r cyfrifiad diwethaf. Dywedon nhw eu bod yn ceisio meincnodi'r wybodaeth hon i ddeall twf y boblogaeth, ond mae angen meintioli ymhellach ar y data.

- Teimlai'r Pwyllgor y dylid dathlu rhestrau aros sydd ar eu hisaf gan fod addasiadau yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar fywydau preswylwyr.

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd darpariaeth staffio'n ddigonol o dan y gyllideb bresennol, a chadarnhawyd gan y RhTA ei bod.

- Amlygodd y Pwyllgor mai cyfieithiadau Saesneg a Chymraeg o'r polisi yn unig oedd yn cael ei gynnig yn yr AEDCh a holi a fu unrhyw geisiadau i'w gyfieithu i ieithoedd eraill. Dywedodd y RhTA wrth y Pwyllgor eu bod yn gweithio'n agos gyda gwasanaeth cyfieithu, fel eu bod yn gallu darparu'r ddogfen mewn ieithoedd eraill os oes angen ac nad oedd hyn wedi bod yn rhwystr.

Sylwadau ac Argymhellion:

- Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar yr adroddiad.

4 **Adroddiad Digidol Blynyddol 2023-24**

Yn bresennol:
- **Mark Bleazard (Rheolwr y Gwasanaethau Digidol)**
- **Rhys Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol – Trawsnewid a Chorfforaethol)**
- **Dominic Gibbons (Rheolwr Prosiectau Digidol)**
- **Shaun Powell (Rheolwr Trawsnewid a Gwybodaeth)**
- **Samantha Turnbull (Rheolwr Prosiectau Digidol)**

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol (RhGD) drosolwg o'r adroddiad.

Trafodwyd y canlynol:

- Holodd y Pwyllgor ble gellid dod o hyd i adborth digidol ar gyfer gwasanaethau eraill. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol (CS) wrth y Pwyllgor y byddai'r adborth hwn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau canol a diwedd blwyddyn sy'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu Perfformiad.

- Holodd y Pwyllgor a oedd yr amhariad ar Microsoft yn ddiweddar wedi effeithio ar systemau Cyngor Dinas Casnewydd ac a ddylid sefydlu trefniadau eraill fel copi wrth gefn. Dywedodd y RhSD wrth y Pwyllgor nad oedd yr effaith yn fach iawn ac amlygodd fod cynlluniau parhad busnes ar waith ar gyfer pan fydd technoleg yn methu. Ychwanegodd y CS ei bod hi'n anodd i sefydliadau ddelio gyda methiannau technoleg gan ei fod wedi cael effaith mor fawr. Fe wnaethant dynnu sylw at daith y Cyngor tuag at systemau cwmwl a'r manteision a ddaw yn sgil hyn, ond roeddent yn ymwybodol o ddarparu gwasanaethau mewn achosion pan fydd hyn yn methu.

- Tynnodd y Pwyllgor sylw at bwysigrwydd argyfyngau wrth gefn pan fydd methiannau'n digwydd megis yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor. Dywedodd y CS wrth y Pwyllgor fod y system a ddefnyddiwyd i ffrydio'r Cyngor wedi profi methiant caledwedd a oedd wedyn wedi'i drwsio a meicroffonau newydd wedi'u gosod yn ystafelloedd y Pwyllgor. Ychwanegon nhw fod Microsoft wedi gwneud newidiadau i Teams ac nad ydyn nhw bellach yn cefnogi digwyddiadau byw felly mae dewisiadau

eraill yn cael eu harchwilio.

- Gofynnodd y Pwyllgor sut mae'r awtomeiddio prosesau robotig (APR) yn gweithio. Eglurodd y CS fod APR yn feddalwedd sy'n cynhyrchu allbwn yn seiliedig ar y gorchymyn mewnbwn a gofnodwyd ynddo. Ychwanegodd y RhSD y gall APR ddynwared yr hyn y gallai unigolyn ei wneud gyda phroses wedi'i seilio ar reolau wedi'i diffinio, ond ni all wneud penderfyniadau cymhleth sy'n gofyn am farn neu ddehongli dynol.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad pellach rhwng APR a Deallusrwydd Artiffisial (AI) o safbwynt person lleyg. Dywedodd y RhSD wrth y Pwyllgor fod gan gyflenwr fideos ar gael ar YouTube ac ychwanegodd y Rheolwr Prosiectau Digidol y gall APR gyflawni tasgau 24/7. Eglurodd fod APR yn dilyn rheolau, ond mae AI yn dysgu ac addasu yn barhaus.

Sylwadau ac Argymhellion:

- Gofynnodd y Pwyllgor am egluro'r gwahaniaeth rhwng Awtomeiddio Prosesau Robotig (APR) a Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn yr adroddiad.

- Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar yr adroddiad.

5 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

a) Materion yn Codi

Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor fod mwyafrif y camau gweithredu wedi'u cwblhau a'i fod wedi mynd ar drywydd y camau gweithredu heb eu cwblhau.

b) Blaenraglen Waith

Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor y bydd Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Hunanasesiad Lles Corfforaethol Blynyddol yn cael eu trafod yn y cyfarfod ar 6 Medi 2024.

c) Monitro Canlyniadau

Dywedodd y Cynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor fod yr ymatebion yn y tabl a bod yr Adroddiad Blynyddol ar Newid Hinsawdd yn rhagorol.

6 **Recordiad o'r Cyfarfod**

Cliciwch yma i wylio'r recordiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.45 am